



Asesiad o Ddatganiad Amgylcheddol

Assessment of Environmental Statement

gan A L McCooey BA (Anrh) MSc
MRTPI

by A L McCooey BA (Hons) MSc MRTPI

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Dyddiad: 19/04/2021

Date: 19/04/2021

Cyf: DNS/3214813

Cyfeiriad y safle: Chwarel Tal-y-bont, Tal-y-bont, Y Trallwng, Powys, SY21 8SZ

- Mae'r Datganiad Amgylcheddol sy'n destun yr asesiad hwn wedi cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017.
- Cyflwynir y cais gan Broad Energy (Wales) Limited.

Cyflwyniad

- Paratowyd Datganiad Amgylcheddol (ES) i gefnogi cais DNS a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu arno.
- Cynhyrchwyd yr ES i ymateb i Gyfarwyddyd Cwmpasu, dyddiedig 3 Hydref 2018, a gyhoeddwyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Y Datblygiad Arfaethedig

- Y datblygiad arfaethedig, fel y'i disgrifir ar y ffurflen gais, yw adeiladu a gweithredu cyfleuster adfer ynni ar gyfer mewngludo, storio a thrin gwastraff trefol, masnachol a diwydiannol a chynhyrchu gwres a thrydan, gan gynnwys ailbroffilio gwagle'r chwarel yn rhannol, cloddwaith, newid mynedfa breswyl bresennol a darparu mynediad cerbydol newydd i'r safle o'r A458 a ffyrdd cludo i'r safle, adeiladau atodol, strwythurau, newidydd, is-orsaf a chysylltiad â'r grid, parcio, llawr caled gan gynnwys ardaloedd gosod ar gyfer storio deunyddiau a pheiriannau, gweithdy, pont bwyso, swyddfeydd, cyfleusterau lles/bwyta, ffensys, giatiau, diogelwch a CCTV, lle storio beiciau a chyfleusterau gwefru cerbydau trydan, mesurau draenio cynaliadwy, gwaith tirweddu a gwelliannau ecolegol.

Cyflawnrwydd y Datganiadau Amgylcheddol

- Nod Datganiad Amgylcheddol (ES) yw rhoi cyfrif systematig a gwrthrychol o'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n debygol o godi o'r datblygiad arfaethedig, gan gynnwys digon o wybodaeth i gadarnhau'r casgliadau ac amlygu ffynhonnell y wybodaeth a ddarparwyd. Mae Rheoliad 17 ac Atodlen 4 Rheoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn ES. Mae fy asesiad o gyflawnrwydd wedi'i seilio ar y gofynion hyn.

Y Datganiad Amgylcheddol

5. Mae'r asesiad hwn wedi'i seilio ar yr ES sy'n cynnwys 16 Pennod. Mae pob pennod yn cynnwys atodiadau technegol sy'n cynnwys asesiadau, adroddiadau a lluniadau. Mae'r ES yn cyfeirio at y Cyfarwyddyd Cwmpasu. Darperir tablau sy'n amlinellu ble yr ymdriniwyd â phob sylw yn y Cyfarwyddyd Cwmpasu a'r rhai hynny a wnaed yn yr ymgynghoriadau cyn-ymgeisio. Mae Tabl 2-2 yn amlinellu ble mae'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 4 Rheoliadau 2017 wedi'i darparu yn yr ES.
6. Mae Datganiad Cynllunio Gwastraff yn cyd-fynd â'r ES, sy'n amlinellu'r angen am y datblygiad. Roedd y Cyfarwyddyd Cwmpasu yn cefnogi'r ymagwedd hon. Mae Pennod 3 yr ES hefyd yn coladu a chrynhoi'r angen am y datblygiad a'r buddion posibl o bob pennod unigol.

Disgrifiad o'r Datblygiad

7. Mae Pennod 1 yn rhoi crynodeb o'r datblygiad a'r safle, a manylion perthnasol yr ymgeisydd, y gweithredwr a'r ymgynghorydd. Darperir disgrifiad llawn o'r datblygiad ym Mhennod 4 a disgrifir lleoliad y safle a'r amgylchedd presennol ym Mhennod 5. Mae'r safle wedi'i leoli mewn hen chwarel ger yr A458 tua 4 km i'r gogledd-ddwyrain o'r Trallwng. Mae'r disgrifiad o'r datblygiad yn foddhaol.

Disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol

8. Mae Pennod 3 yr ES yn amlinellu'r dewisiadau amgen a ystyriwyd gan yr ymgeisydd. Bwriedir i'r cyfleuster wasanaethu Powys, felly roedd y lleoliadau amgen a ystyriwyd ym Mhowys. Disgrifir y dewisiadau amgen o ran technolegau, uchder stac a dyluniadau adeiladau hefyd. Mae'r ES yn esbonio sut mae effeithiau ac ystyriaethau amgylcheddol wedi dylanwadu ar y dewisiadau a'r penderfyniadau a wnaed.
9. Mae'r ystyriaeth o'r prif ddewisiadau amgen yn foddhaol.

Disgrifiad o'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt

10. Mae'r ES yn esbonio bod Agweddau Amgylcheddol Allweddol (KEA) wedi cael eu dewis yn unol â'r Cyfarwyddyd Cwmpasu ac ar ôl ymgynghori â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chyrrff statudol. Mae'r ES yn cynnwys penodau ar agweddau penodol (Ansawdd Aer, Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Tirwedd a Gweledol, Ecoleg, yr Amgylchedd Dŵr, Archaeoleg a Threftadaeth, Sŵn a Dirgryniad, ac Effaith Gyffredinol ar Iechyd). Mae penodau hefyd ar effeithiau cronol, materion geotechnegol (gan gynnwys sefydlogrwydd llethrau) ac effeithiau economaidd-gymdeithasol.
11. Mae'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Methodoleg Asesu

12. Mae Pennod 2 yr ES yn amlinellu'r fethodoleg drosfwaol ar gyfer y KEA. Y sefyllfa sylfaenol bresennol yw cyflwr ffisegol y safle cyn unrhyw waith paratoi neu adeiladu mynedfa newydd i'r safle (sydd wedi cael caniatâd cynllunio). Mae hyn yn unol ag Atodlen 4 Rheoliadau 2017 a pharagraff 6.2 y Cyfarwyddyd Cwmpasu. Ystyrir effeithiau'r camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn unigol ac ar y cyd. Ystyrir effeithiau rhyngweithiol â KEAs eraill. Amlinellir y ffactorau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i asesu arwyddocaeth effeithiau ym mhob pennod. Nid yw'r effaith gyffredinol ar iechyd (Pennod

15) yn dilyn y fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer y penodau KEA eraill oherwydd bod yr effeithiau arwyddocaol ar iechyd y boblogaeth ac iechyd pobl eisoes wedi cael eu hasesu yn y penodau KEA perthnasol.

13. Disgrifir y fethodoleg Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA) yn glir yn yr ES.

Disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd

14. Mae effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd wedi cael eu hasesu'n systematig yn unol â'r fethodoleg uchod. Mae'r asesiadau technegol ar gyfer ansawdd aer (gan gynnwys allyriadau trafndiaeth a llwch), trafndiaeth, effaith dirweddol a gweledol, yr effaith ar dreftadaeth a'r effaith ar iechyd wedi'u cynnwys fel atodiadau. Mae'r pynciau a ystyriwyd yn cyd-fynd â'r Cyfarwyddyd Cwmpasu. Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y Cyfarwyddyd Cwmpasu ac mewn ymgynghoriadau wedi cael ei darparu.

15. Mae effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Mesurau atal a / neu liniaru

16. Ar gyfer pob pennod KEA, mae'r ES yn disgrifio'r mesurau lliniaru perthnasol sydd wedi'u hymgorffori yn nyluniad y datblygiad a mesurau lliniaru ychwanegol lle yr amlygir effeithiau amgylcheddol arwyddocaol. Nodir y gallai fod achlysuron lle y cynigir lliniaru effeithiau nad ydynt yn arwyddocaol er mwyn dangos arfer gorau.

17. Mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) drafft wedi cael ei ddarparu. Mae hwn yn amlinellu sut y bydd effeithiau amgylcheddol gweithgareddau adeiladu'n cael eu lliniaru a'u rheoli. Bydd y CEMP yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen mewn cytundeb â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r ymagwedd hon wedi cael ei chefnogi gan CNC.

18. Mae'r ES yn cynnwys crynodeb o'r mesurau lliniaru ar gyfer yr holl effeithiau amgylcheddol a amlygwyd yn y penodau KEA (Tabl 16-4). Mae'r ES yn dod i'r casgliad na fyddai'r effeithiau gweddilliol a amlygwyd ar yr amgylchedd yn arwyddocaol ar ôl y mesurau lliniaru cadarn a gynigiwyd.

19. Mae'r ES yn disgrifio'r mesurau lliniaru a amlygwyd i atal effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd yn ddigonol. Mae'r berthynas rhwng y gweithdrefnau cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol wedi cael ei hamlinellu.

Arwydd o unrhyw anawsterau wrth gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol

20. Mae'r tybiaethau cyffredinol a wnaed a'r cyfyngiadau a amlygwyd wedi cael eu hamlinellu ym Mhennod 2. Er enghraifft, mae'r rhain yn ymwneud â natur ddynamig y wybodaeth sylfaenol, bod trydydd partion ac ymgymerwyr statudol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ac y bydd yr amodau angenrheidiol i reoli'r mesurau lliniaru a amlygwyd ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd cynllunio. Amlinellir yr oedi a achoswyd gan y pandemig Covid-19 a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw hefyd (e.e. yn Nhabl 2-1). Mae pob pennod KEA yn nodi unrhyw dybiaethau a chyfyngiadau sy'n berthnasol i'r bennod honno. Nodwyd anhawster wrth gael gwybodaeth ynglŷn â rhai materion ecolegol. Mae'r tybiaethau a wnaed yng ngoleuni'r anawsterau hyn wedi'u hamlinellu'n glir yn yr ES.

Darparu Crynodeb Annhechnegol

21. Darparwyd crynodeb annhechnegol sy'n cynnwys y wybodaeth a roddwyd o dan Reoliad 17 a pharagraffau 1 i 8 Atodlen 4 Rheoliadau AEA 2017. Mae'r crynodeb annhechnegol yn ddigonol.

Casgliadau Cyffredinol

22. Deuaf i'r casgliad y dylid cadarnhau bod y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gan Broad Energy (Wales) Limited ym mis Chwefror 2021 yn cynnwys lefel y wybodaeth a amlygir yn Rheoliad 17 ac Atodlen 4 Rheoliadau AEA 2017 a'i fod yn gyflawn at ddibenion y Rheoliadau hynny.

A L McCooey

Arolygydd



**Asesiad o
Ddatganiad Amgylcheddol**

**Assessment of
Environmental Statement**

gan **A L McCooey BA (Hons) MSc
MRTPI**

by **A L McCooey BA (Hons) MSc MRTPI**

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Dyddiad: 19/04/2021

Date: 19/04/2021

Ref: DNS/3214813

Site address: Buttington Quarry, Buttington, Welshpool, Powys, SY21 8SZ

- The Environmental Statement which is the subject of this assessment has been submitted in relation to the application for Development of National Significance (DNS) in accordance with the Town and Country Planning (Environmental Impact Assessment) (Wales) Regulations 2017.
 - The application is made by Broad Energy (Wales) Limited.
-

Introduction

1. An Environmental Statement (ES) was prepared to support a DNS application which has been submitted to the Planning Inspectorate for determination.
2. The ES was produced in response to a Scoping Direction, dated 3 October 2018, issued on behalf of the Welsh Ministers

Proposed Development

3. The proposed development as described on the application form is for the construction and operation of an energy recovery facility for the importation, storage and treatment of municipal, commercial and industrial waste and generation of heat and electricity, involving partial re-profiling of quarry void, earth works, alteration to existing residential access and provision of new vehicular site access from the A458 and site haul roads, ancillary buildings, structures, transformer, sub-station and grid connection, parking, hardstanding including laydown areas for materials storage and plant, workshop, weigh bridge, offices, welfare/mess facilities, fencing, gates, security and CCTV, bicycle storage and electric vehicle charging facilities, sustainable drainage measures, landscape works and ecological enhancements.

Completeness of Environmental Statements

4. The aim of an Environmental Statement (ES) is to provide a systematic and objective account of the significant environmental effects likely to arise from the proposed development, including sufficient information to verify the conclusions and identify the source of the information provided. Regulation 17 and Schedule 4 of the 2017 Regulations specify the information to be included in an ES. My assessment of completeness is based on these requirements.
-

The Environmental Statement

5. This assessment is based on the ES comprising 16 Chapters. Each chapter contains technical appendices comprising assessments, reports and drawings. The ES refers to the Scoping Direction. Tables are provided to set out where each comment in the Scoping Direction and those made in the pre-application consultations have been addressed. Table 2-2 sets out where the information required by Schedule 4 of the 2017 Regulations is provided in the ES.
6. The ES is accompanied by a Waste Planning Statement which sets out the need for the development. The Scoping Direction was supportive of this approach. Chapter 3 of the ES also collates and summarises the need for the development and potential benefits from each individual chapter.

Description of the Development

7. Chapter 1 provides a summary of the development, the site and the relevant applicant, operator and consultant details. A full description of the development is provided in Chapter 4 and the site location and existing environment are described in Chapter 5. The site is located in a former quarry near the A458 around 4 km NE of Welshpool. The description of the development is satisfactory.

Description of the reasonable alternatives

8. Chapter 3 of the ES sets out the alternatives considered by the applicant. The facility is intended to serve Powys and therefore the alternative locations considered were within Powys. The alternative technologies, stack heights and building designs considered are also described. The ES explains how environmental effects and considerations have influenced the choices and decisions made.
9. The consideration of the main alternatives is satisfactory.

Description of the aspects of the environment likely to be significantly affected

10. The ES explains that Key Environmental Aspects (KEA) were selected in accordance with the Scoping Direction and after consultation with the Local Planning Authority and statutory bodies. The ES includes aspect chapters (Air Quality, Highways and Transportation, Landscape and Visual, Ecology, The Water Environment, Archaeology and Heritage, Noise and Vibration, and Overall Health Impact). There are also chapters on the cumulative impacts, geotechnical matters (including slope stability) and Socio-economic effects.
11. The aspects of the environment that are likely to be significantly affected are sufficiently described.

Assessment Methodology

12. Chapter 2 of the ES sets out the over-arching methodology for the KEA. The existing baseline situation is the physical state of the site prior to any preparatory works or construction of a new site access (that has received planning permission). This is in line with Schedule 4 of the 2017 Regulations and paragraph 6.2 of the Scoping Direction. The effects of the construction, operation and de-commissioning phases are considered individually and collectively. Interactive effects with other KEAs are considered. The factors and methods used to assess the significance of effects are set out in each chapter. The overall health impact (Chapter 15) does not follow the methodology adopted for the

other KEA chapters because the significant effects to population and human health have already been assessed in the relevant KEA chapters.

13. The EIA methodology is described clearly in the ES.

Description of the likely significant effects of the development on the environment

14. The likely significant effects of the development on the environment have been systematically assessed in line with the above methodology. The technical assessments for air quality (including transport and dust emissions), transport, landscape and visual impact, heritage impact and health impact are included as appendices. The topics considered are in line with the Scoping Direction. The information requested in the Scoping Direction and in consultations has been provided.
15. The likely significant effects of the development on the environment are sufficiently described.

Prevention and / or mitigation measures

16. For each KEA chapter the ES describes relevant mitigation measures embedded within the design of the development and additional mitigation measures where significant environmental effects are identified. It is noted that there may be occasions where mitigation of non-significant effects is proposed in order to demonstrate best practice.
17. A draft Construction Environmental Management Plan (CEMP) has been provided. This sets out how the environmental impacts of construction activities will be mitigated and controlled. The CEMP will be updated and reviewed as the project progresses in agreement with the Local Planning Authority and Natural Resources Wales (NRW). This approach has been endorsed by NRW.
18. The ES includes a summary of the mitigation measures for all the environmental effects identified in the KEA chapters (Table 16-4). The ES concludes that the identified residual environment effects after the robust mitigation measures proposed would not be significant.
19. The ES sufficiently describes the mitigation measures that have been identified to prevent significant impacts on the environment. The relationship between the planning and environmental permitting procedures has been set out.

Indication of any difficulties in compiling the required information

20. The general assumptions made and limitations identified have been set out in Chapter 2. For example, these relate to the dynamic nature of the baseline information, that third parties and statutory undertakers have fulfilled their responsibilities and that the necessary conditions to control the identified mitigation measures will be attached to any planning permission. The delays caused by the Covid-19 pandemic and the measures taken to address them are also set out (e.g. in Table 2-1). Each KEA chapter notes any assumptions and limitations relevant to that chapter. Difficulty in obtaining information in relation to some ecological matters has been noted. The assumptions made in light of these difficulties are clearly set out in the ES.

Provision of a Non-Technical Summary

21. A non-technical summary has been provided which includes the information provided under Regulation 17 and paragraphs 1 to 8 of Schedule 4 of the 2017 EIA Regulations. The non-technical summary is sufficient.

Overall Conclusions

22. I conclude that the Environmental Statement submitted by Broad Energy (Wales) Limited on February 2021 be confirmed as containing the level of information identified in Regulation 17 and Schedule 4 of the 2017 EIA Regulations and being complete for the purposes of those Regulations.

A L McCooey

Inspector